# Busnes Lefel 3 BTEC (Llawn-Amser)

Mae'r Diploma Estynedig BTEC Lefel 3 hwn mewn Busnes yn gwrs dwy flynedd amser llawn, wedi'i gynllunio ar gyfer myfyrwyr sy'n dymuno datblygu dealltwriaeth ddamcaniaethol ac ymarferol o wahanol agweddau ar fusnes.
Cydnabyddir y cymhwyster hwn fel cam cyntaf i lawer o arbenigeddau a chyfleoedd gyrfa, yn ogystal ag amrywiaeth o lwybrau addysg uwch.
Bydd myfyrwyr yn cael y cyfle i ddysgu am fyd deinamig busnes a chânt eu hannog i feddwl fel entrepreneuriaid.
Byddant yn dod i gysylltiad â llawer o arbenigeddau wrth ddysgu, megis Adnoddau Dynol, Cyllid, Gweinyddu, Rheolaeth, y Gyfraith a Marchnata.
Bydd myfyrwyr yn cael y cyfle i ddysgu sgiliau ymarferol, megis cynllunio digwyddiadau, ac yn cael y cyfle i ymgymryd ag ymweliadau a chael eu cyflwyno i siaradwyr gwadd sy'n helpu i'w cymell a'u cynnwys yn y byd gwaith.

## Gofynion Mynediad

6 TGAU gradd C neu uwch neu gyfwerth, gan gynnwys Mathemateg neu Saesneg. Nid oes angen unrhyw brofiad blaenorol o astudiaethau busnes.

## Rhagolygon Gyrfa

Y llwybr dilyniant cydnabyddedig yw i gyrsiau AU neu gyflogaeth. Mae gan raddedigion y gobaith o gael mynediad i ddewis hynod amrywiol o lwybrau gyrfa ar ôl cwblhau'r cwrs hwn, ac mae hwn yn un o'r ffactorau hynod apelgar i'w hystyried wrth wneud dewis ar gyfer astudio AB.

## Modiwlau'r cwrs

Mae'r cwrs yn cwmpasu ystod o unedau, gan gynnwys Recriwtio, Archwilio Busnes, Marchnata, Cyllid, AD, Strategaeth Busnes, Gwasanaeth Cwsmeriaid, Busnes Rhyngwladol a llawer mwy.
Bydd myfyrwyr hefyd yn cwblhau Her Sgiliau Uwch Bagloriaeth Cymru, sydd wedi'i hintegreiddio i'r cwrs ac sy'n cynnig cyfle gwych i archwilio meysydd diddordeb arbenigol mewn busnes, neu feysydd diddordeb personol.
Mae'n hynod werthfawr i fyfyrwyr, gan gyfrif fel Lefel A yn ogystal â'u pwyntiau cyfwerth â BTEC 3 Lefel A, gan eu gwneud yn hynod o ddeniadol i gyflogwyr a sefydliadau AU tebyg.

## Asesiad

Bydd myfyrwyr yn paratoi swm amrywiol o waith cwrs. Cwblheir asesiadau ysgrifenedig trwy gydol y cwrs, ymgymerir ag ymchwil a bydd y gwaith o baratoi a chyflwyno'r darganfyddiadau ar ffurf ysgrifenedig a llafar, yn ogystal â chynnig nifer o elfennau ymarferol sy'n cadw'r cwrs yn ddiddorol ac yn ddifyr. Yn ogystal, mae dau asesiad allanol yn y flwyddyn gyntaf a'r ail flwyddyn astudio.

## Costau Ychwanegol

Bydd rhai ymweliadau a theithiau trwy gydol y cwrs, gan gynnwys fel rhan o'r uned digwyddiadau, fodd bynnag bydd cost y rhain yn cael ei gadw mor isel â phosibl, yn enwedig unrhyw deithiau dydd gorfodol.

### DULL ASTUDIO

FT

### LLEOLIAD

Coleg Bannau Brycheiniog - 0330 818 8100

Coleg Y Drenewydd - 0330 818 8100

Coleg Castell-nedd - 0330 818 8100

### HYD Y CWRS

1Y